Y Sbectol Hud

(addasiad o 'Gyngor ar Bwysigrwydd Dychymyg' – ar gyfer yr Gŵyl Pontyberem)

Pan fydd yr haul yn cwato'r[1] sêr i gyd
A'r nos ar goll tu ôl i ddrws y dydd,
Pan fydd y lleuad wen ymhen draw'r byd
A'r machlud fel y wawr ar orwel cudd;

Neu, pan fydd niwl yn gwisgo'r bryniau draw,
A phlu yr eira'n oeri brigau'r llwyn,
Pan fydd y blodau trist yn crio'r glaw-
Rho bâr o sbecs dychymyg ar dy drwyn.

Ti'n gweld, mae gweld yn anodd ambell waith
A ninnau'n ddall i ryfeddodau'r byd,
Mae'n anodd gweld y wên trwy'r gwgu maith,
Mae'n anodd gweld y glas trwy'r glaw i gyd.

Am hyn fy ffrind, cyn dechrau ar dy daith,
Ym mhoced ôl dy jîns rho'r sbectol hud,
A gwisga hi, a mentra godi'r llen
I weld holl liwiau'r enfys sy'n dy ben.

mh

[1] Gan fod 'cwato' yn air tafodieithol iawn, awgrymaf fod croeso i unrhyw un newid y llinell hon i:

Pan fydd yr haul yn ***cuddio'r*** sêr i gyd